Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Chwefror 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Chwefror 2015, ynglŷn â Chyllideb Atodol y Comisiwn 2014-15.

Gofynnwyd am ddadansoddiad o'r incwm ychwanegol y disgwylir iddo gael ei godi. Mae hwn wedi'i nodi yn Nhabl 1.

**Tabl 1**

| **Ffrwd Incwm** | **Disgrifiad** | **Amcangyfrif Cyllideb Gwreiddiol ar gyfer 2014-15 £000** | **Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2014-15 £000** |
|---|---|---|---|
| Secondiadau | Incwm a gafwyd mewn perthynas â chyflogeion yn ymgymryd â secondiadau mewn sefydliadau eraill | £0 | £173 |
| Rhent | A godir ar gyrff sy'n meddiannu gofod ar Ystad y Comisiwn | £90 | £76 |
| Siop y Cynulliad | Incwm a gynhyrchir o werthu nwyddau yn siop y Senedd ac incwm amrywiol arall, fel gwerthu offer. | £15 | £32 |
| Parcio | Incwm a gynhyrchir o daliadau staff ar gyfer defnydd o'r cyfleusterau parcio. | £100 | £91 |
| Arall | Wrth gefn ar gyfer incwm arall | £45 | £28 |
| **Cyfanswm** | | **£250** | **£400** |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: **0300 200 6230**
E-bost/Email: Claire.Clancy@assembly.wales
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'r cynnydd o £150,000, i £400,000, yn angenrheidiol er mwyn rheoli sefyllfa 2014-15, a darparu swm bychan wrth gefn ar gyfer unrhyw amrywiad ar i fyny i'r rhagolwg.

**Dadansoddiad o ran Parcio**

O ran eich ymholiad penodol am barcio ceir, dangosir yr incwm a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol o'i gymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol yn Nhabl 2.

**Tabl 2**

| Blwyddyn | Gwariant | Incwm | Cost Net | % o'r gost a gaiff ei adfer drwy daliadau |
|---|---|---|---|---|
| **2011-12** | 98,556 | 84,405 | 14,151 | 85.64% |
| **2012-13** | 115,109 | 85,976 | 29,133 | 74.69% |
| **2013-14** | 103,404 | 88,968 | 14,437 | 86.04% |
| **2014-15 (yr hyn a ragwelwyd yn Ionawr 2015)** | 98,334 | 91,300 | 7,034 | 92.84% |

Nododd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2014-15 bod disgwyl i'r costau parcio fod yn £120,000. Fodd bynnag, o ganlyniad i reolaeth ofalus o'r cyfleusterau parcio, mae'r costau wedi gostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Hefyd, mae newid i'r dosbarthiad o gostau'r maes parcio wedi golygu bod y Comisiwn yn awr yn gallu adennill TAW ar gostau a dalwn i'r cwmni parcio allanol, sydd wedi lleihau costau ymhellach.

**Refeniw a Symud Cyfalaf**

Fel rhan o'n gwaith rheolaidd, byddwn yn cysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod tryloywder ac eglurder ynghylch unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn yn eu cynnig o ran y gyllideb. Gan fod ein cyllideb yn gyfran mor fach o gyfanswm y gyllideb a reolir gan Lywodraeth Cymru, anaml y bydd ein newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar Lywodraeth Cymru. Rydym yn darparu gwybodaeth reolaidd o flaen llaw i helpu gyda phroses gynllunio y Llywodraeth, ac i liniaru' r risg o unrhyw effaith annisgwyl o ran y gyllideb. Gallaf gadarnhau felly y bu trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru am gynigion Cyllideb Atodol y Comisiwn.

Nodaf eich cais am wybodaeth am y pensiwn, a byddaf yn sicrhau y caiff hon ei hanfon atoch cyn gynted ag y bo modd ar ôl 31 Mawrth 2015.

Gobeithio bod yr eglurhad hwn yn ddigonol i ateb eich ymholiadau. Peidiwch ag oedi cyn gofyn os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn ddiffuant

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**